

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 11eg Fawrth 2019

Presennol - Gareth Wynne Cadeirydd, Marion Bettenev, Gwawr Jones, Nick Corney, Neil Pringle, Dyfed Jones, Cyng. Elisabeth Roberts, Caerwyn Roberts, Clerc.
Ymddiheuriadau -- Siân Godbert, Janet Charlton

Datgan diddordeb – Dim datganiad

Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 11eg Chwefror 2019.

Materion yn codi

(1)Yr Heddlu

Cyfeiriodd y clerwr at y canlynol a dderbyniwyd gan SCHG Jonathan Thomas :

[a] Gwelwyd cerbyd oedd yn amheus yn yr ardal sef fan wen gyda pheth o'r rhif HXO2

[b] Un achos o ymddwyn yn wrth gymdeithasol, dau o amgylchiadau amheus, dau gwrthdrawiad moduron, un o greu trafferthion ar y ffordd ac un drosedd niweidio

[1.1] Astudiaeth Dichonoldeb Pont-y-Pair/Ffordd Coed Cynhelir

Dyweddodd y clerwr iddo ynghyd a Cyng. Elisabeth Roberts gwrdd gyda Gwyn Parry Cyngor BS Conwy a'u bod wedi darganfod lleoliad efallai a fyddai'n addas ar gyfer gosod pont droed ochor uchaf i Bont-y-Pair. Gofynnwyd i'r clerwr wneud ymholiadau ynglŷn â pherchnogaeth y tir.

[1.2] Rheolaeth Cae Llan

Penderfynwyd anfon llythyr i fusnesau'r pentref yn cadarnhau fod y Cyngor yn bwriadu ehangu defnydd Cae Llan.

[1.3] Llifogydd Pentre' Du

Penderfynwyd trafod yr adroddiad gyda Siân Godbert yng nghyfarfod nesaf y Cyngor

[1.4] Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst

Nodwyd gair gan y Cyng. Elisabeth Roberts yn atgoffa fod cyngerdd yn Eglwys Santes Fair nos Sul yr 17eg Fawrth, yr elw tuag at Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst.

[1.5] Gwaith Diogelwch Cronfeydd Dwr Gwydr

Nodwyd bod gwaith wedi ei gwblhau yn llyn Goddionduon a Sarnau a bod gwaith yn parhau yn llyn Cyffty . Mae bwriad i ddechrau gwaith yn llyn Tynymynydd yn Ebrill 2019 sydd yn debyg o barhau am bedwar mis.

[1.6] Cais gan Ms Heather Beale

Penderfynwyd darparu bin ysbwriel yng nghwaelod y llwybr sydd yn arwain i Llyn Elsi, y clerwr i gysylltu gyda Gwyn Lloyd ynglŷn a'i wagu ayb.

[1.7] Colofn Golau Ffordd yr Orsaf

Nodwyd yn siomedig nad oedd ateb wedi ei dderbyn gan y Cyng. Wyn Ellis Jones cynrychiolydd yr ardal ar y Parc Cenedlaethol, i ymholiad y Cyngor fod colofn olau ar Ffordd yr Orsaf heb fod yn goleuo ers 2017. Cytunodd y Cyng. Elisabeth Roberts i fynd a'r mater ymlaen.

[1.8] Siop Wāg Climber & Rambler

O ganlyniad nad yw J D Sports yn gwneud dim ynglŷn â'i heiddo blêr, y clerch i anfon at Guto Bebb, a Janet Finch Saunders yn datgan pryder y Cyngor

Y brif Agenda

[1.9] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau [a ddsbarthwyd] a wnaed yn ystod mis Chwefror 2019

[b] Y Rhaeadr Ewynnol - Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Chwefror 2019

[2] Materion Cynllunio

Tynnu'r crynodiadur gwastraff presennol a'r strwythur cysylltiol a.y.b. a chodi storfa bins newydd

Gwesty'r Royal Oak, Betws-y-Coed.

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais uchod.

[2.1] Mynwent Erw Hedd

Dywedodd y clerch iddo ynghyd a'r Cyng. Elisabeth Roberts gwrdd gyda'r swyddog cynnal a chadw Mr Steven Teale, ac iddo gytuno i ail osod rhai o'r slabiau concrit, gosod ffens paneli ar y ffin rhwng yr orsaf drydan ynghyd a glanhau mwsog o'r llwybr. Y gwaith ar y giât a'r wal i'w wneud yn ddiweddarach

[2.2] Goleuadau Nadolig

Penderfynwyd archebu goleuadau newydd erbyn Nadolig 2019, y clerch i wneud ymholiad ynllyn ar gost a.y.b.

[2.3] Rhyd y Craeau

[a] Cyfeiriodd y clerch at lythyr gan Mr Tony Godbert y swyddog cynnal a chadw yn ceisio caniatâd i wersyllfa am gyfnod bur yng Nghae Llan I fyfyrwyr o'r ganolfan. Y clerch i anfon at Mr Godbert nad oedd y Cyngor yn barod i ganiatáu'r cais.

[b] Penderfynwyd cyfrannu £280.00 tuag at diffibiliwr yn y ganolfan.

[2.4] Ambiwlans Awyr Cymru

Penderfynwyd cyfrannu £250.00

[2.5] Nadolig Betws-y-Coed

Deallwyd yn anffodus o ganlyniad salwch, na fydd yr achlysur yn cael ei gynnal eleni.

[2.6] Nodwyd y wybodaeth ganlynol

[a] Cyngor BS Conwy – Datganiad o Egwyddorion Gamblo Diwygiedig

[b] Cynllun Datblygu Lleol Eryri : Mabwysiadau